



Gwirfoddoli fel Gyrfa

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o wneud gwahaniaeth i fywydau eraill a chefnogi eich cymuned leol, ond mae ganddo ystod o fuddion i chi hefyd, y gwirfoddolwr. Un ffordd y gall gwirfoddoli fod o fudd i chi yw drwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu eich gyrfa (am ragor o fanylion ynglŷn â buddion gwirfoddoli, gwyliwch ein fideo wedi'i animeiddio 'Camau Cyntaf i Wirfoddoli').

Gall gwirfoddoli gefnogi eich gyrfa mewn sawl ffordd:



Ennill sgiliau newydd a datblygu rhai sydd gennych eisoes

Gall gwirfoddoli chwarae rôl allweddol yn eich helpu i adeiladu sgiliau meddal a chaled a fydd yn cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol.

Y nodweddion personol sy'n ofynnol i berfformio swydd yn dda yw sgiliau meddal. Maent yn ymwneud â sut ydych yn cyflawni eich gwaith ac yn cynnwys pethau fel sgiliau cyfathrebu, sgiliau gwrando, rheoli amser, gwaith tîm, a datrys problemau. Mae'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy – gellir eu defnyddio mewn nifer o swyddi a llwybrau gyrfa gwahanol.

Caiff sgiliau caled eu caffael drwy ddysgu ac maent yn cynnwys sgiliau sy'n benodol i'r swydd megis hyfedredd mewn TG a gweinyddu. Dengys y sgiliau hyn fod gennych yr wybodaeth a'r gallu sy'n ofynnol i gyflawni rôl a gellir eu caffael drwy hyfforddiant a geir fel gwirfoddolwr.



Ennill profiad a rhoi hwb i'ch CV

Mae gwirfoddoli yn edrych yn wych ar eich CV. Mae cyflogwyr eisiau profiad, ond pan ydych yn camu i gyflogaeth â thâl am y tro cyntaf neu'n dechrau mewn maes newydd, yn aml mae hyn yn anodd ei gael. Gall gwirfoddoli roi'r profiad gwerthfawr hwnnw i chi. Os ydych ar drywydd profiad rheoli – beth am ddod yn ymddiriedolwr? Yn awyddus i gamu i'r sector nyrsio – pam na wnewch chi wirfoddoli i'ch bwrdd iechyd lleol?

Gall gwirfoddoli helpu i lenwi unrhyw fylchau mewn cyflogaeth a rhoi geirada i chi ar gyfer ceisiadau am swyddi hefyd. Gall ddangos i gyflogwyr eich bod yn rhagweithiol drwy ennill profiad mewn maes yr hoffech weithio ynddo. Mae hefyd yn ffordd wych o ddangos eich brwdfrydedd ac mae'n rhoi cipolwg i'r cyflogwr ar eich personoliaeth a diddordebau. Mewn marchnad swyddi gystadleuol, gall gwirfoddoli eich helpu i sefyll allan o'r dorf.





Archwilio maes i weld a yw gyrfa yn y maes hwn yn addas i chi

Cyn ymrwymo i gyflogaeth â thâl mewn maes penodol neu gofrestru ar gwrs addysgol, mae gwirfoddoli yn gadael i chi brofi sector i weld ai dyma'r llwybr gyrfa iawn i chi.

Yn ystyried newid gyrfa? Pam na wnewch chi roi cynnig ar hynny drwy wirfoddoli cyn cymryd y naid.

Ehangu eich rhwydwaith

Gall gwirfoddoli eich helpu i adeiladu perthnasoedd personol a phroffesiynol. Gall ehangu eich rhwydwaith gynnig rhagolygon a chyfleoedd newydd ar gyfer dysgu a thwf.

Mynd i'r afael â rhwystrau sylfaenol i waith

Gall gwirfoddoli gyfrannu at welliannau mewn iechyd a llesiant, gan helpu i fynd i'r afael â rhwystrau sylfaenol i waith. Gall rhoi synnwyr o bwrpas a boddhad i chi o wybod eich bod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'ch cymuned ac mae'n ffordd wych o adeiladu eich hyder a hunan-barch mewn amgylchedd hyblyg a chefnogol. Mae'n ffordd gynnil o ddatblygu mewn meysydd nad ydych yn hyderus ynddynt, efallai, heb y pwysau a ddaw gyda chyflogaeth â thâl.



Awgrymiadau ar gyfer troi gwirfoddoli yn gyflogaeth

- **Nodi'r sgiliau a ddefnyddiwch pan fyddwch yn gwirfoddoli** (efallai y cewch ddisgrifiad o'r rôl wirfoddoli sy'n amlinellu'r sgiliau ynghlwm â'r rôl). Gellir defnyddio'r wybodaeth hon wrth gwblhau CV neu gais am swydd i ddangos eich addasrwydd i'r swydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi enghreifftiau o achlysuron pan wnaethoch ddefnyddio pob sgil a'r canlyniad.
- **Siarad â'ch cydlynnydd gwirfoddoli am eich dyheadau ar gyfer y dyfodol.** Efallai y gallant gynnig rhagor o hyfforddiant neu gyfleoedd i chi a fydd yn eich helpu i ddatblygu yn broffesiynol.
- **Gofyn am adborth.** Darganfyddwch beth ydych wedi'i wneud yn dda a sut allwch chi ddatblygu ymhellach i helpu eich datblygiad.
- **Cofnodi eich cynnydd.** Cadwch gofnod o unrhyw hyfforddiant a wnewch fel rhan o'ch rôl wirfoddoli a beth ydych wedi'i ddysgu. Ffeiliwch unrhyw dystysgrifau, canmoliaeth a dderbyniwyd neu unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos eich effaith a chyflawniadau.

Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs